

Adroddiad Blynyddol Ebrill 2019 - Mawrth 2020



CANOLFAN GERDD
William Mathias

Stori'r flwyddyn

Bu 2019-2020 yn flwyddyn brysur arall i CGWM a braf oedd cael dathlu ugain mlynedd ers i'r Ganolfan agor ei drysau trwy wahodd rhai o'n cyn-ddisgyblion a'n disgyblion presennol i nodi'r achlysur mewn cyngerdd arbennig yn Galeri.

Cychwynnodd y flwyddyn gyda'r cyffro arferol o gynnal Gwyl Delynau Cymru yn Galeri. Daeth 36 o delynorion o bob oed ar y cwrs deuddydd a braf oedd croesawu Catrin Finch a'r delynores o Awstria Monika Stadler fel artistiaid gwadd.

Ar ôl 5 mis o gynllunio a chroesawu Mared Gwyn-Jones i'n tim fel Rheolwr Prosiect, braf oedd cychwyn sesiynau Canfod y Gân yn Ebrill 2019. Yn sicr un o uchafbwyntiau y flwyddyn flaenorol oedd sicrhau grant sylweddol 3 mlynedd gan gronfa Spirit of 2012 i'n caniatáu i sefydlu prosiect sy'n dod a phobl efo anableddau dysgu a phobl heb anabledd ynghyd i gymryd rhan yn gyfartal mewn cerddoriaeth gyda'r nod o wella iechyd meddwl a lles. Mae'r prosiect yn bartneriaeth rhwng CGWM a Thim Anableddau Dysgu Cyngor Gwynedd ac rydym yn hynod o ddiolchgar i'r tim am eu cefnogaeth a'u brwdfrydedd. Trwy'r prosiect rydym wedi datblygu tim o 6 o gerddorion i arwain y gweithgareddau ac wedi creu cysylltiadau cryf gyda'r gymuned ehangach yn y 3 lleoliad.

Mae annog mwy o oedolion i ail gydio mewn neu gychwyn gwersi offerynnol o'r newydd yn un o nodau CGWM. Yn dilyn cynnal cyfres peilot yn Mawrth 2019 penderfynwyd parhau gyda'r Gerddorfa Gymunedol i oedolion yng Nghaernarfon o dan arweiniad Nicki Pearce. Yn ystod y flwyddyn mae'r gerddorfa wedi mynd o nerth i nerth a'r aelodaeth wedi tyfu o 14 i 35 mewn 9 mis.

Yn mis Tachwedd cafwyd dau ddigwyddiad arbennig i lansio Gwyl Bianco Ryngwladol Cymru 2020 sef cyngerdd gan diwtoriaid piano CGWM yn Galeri a diwrnod piano ddaeth a 46 o banyddion o bob oed a chyrhaeddiad o Ogledd Cymru ynghyd i berfformio mewn sesiynau amrywiol ym Mhrifysgol Bangor.

Un o ddyheadau CGWM i'r dyfodol yw darparu mwy o gyfleoedd i ddathlu a dysgu am gerddoriaeth o ddiwylliannau eraill. Braf iawn oedd cydweithio gyda Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn i drefnu cyfres o weithdai ar gerddoriaeth Indiaidd gan y sielydd Anup Biswas.

Doedd gennym fawr o feddwl wrth gychwyn y flwyddyn y byddem yn wynebu y cyfnod mwyaf heriol yn hanes y cwmni wrth i'r flwyddyn dynnu tua'i therfyn. Gyda dyfodiad Covid-19 a chyflwyno y cyfnod clo bu'n rhaid i raglen gyfan arferol CGWM ddod i stop. Wrth weld y sefyllfa yn datblygu roeddem wedi cychwyn ystyried opsiynau ar-lein ac roeddem yn hynod falch o fedru cynnig i'n tiwtoriaid i gyd symud i wersi ar-lein o wythnos gyntaf y cyfnod clo gyda oddeutu hanner y disgyblion un i un yn derbyn gwersi ar-lein erbyn y gwyliau Pasg. Roedd cyngherddau cymunedol gan ein cyn-ddisgybl dawnus Elfair Grug hefyd wedi eu trefnu ar gyfer diwedd Mawrth felly penderfynwyd datblygu cyfres o gyngherddau anffurfiol ar-lein o gartrefi ein tiwtoriaid a'n cyn-ddisgyblion.

Treuliwyd pythefnos olaf y flwyddyn hon yn cynllunio ymlaen i'r misoedd i ddod gan baratoi i symud rhagor o'n darpariaeth ar-lein a chynllunio prosiectau cadw cyswllt gyda'n grwpiau cymunedol. Fel sefydliad sydd yn cydweithio gyda 46 o diwtoriaid llawrydd roeddem yn ymwybodol iawn o'r sefyllfa hynod heriol yr oeddent i gyd yn ei hwynebu ac felly roedd medru eu galluogi i gynnal elfennau o'u hincwm yn flaenoriaeth i ni yn ystod y cyfnod hwn yn ogystal â sicrhau bod CGWM yn goroesi y cyfnod.

Dyma grynodeb o waith y flwyddyn gyda diolch i'n staff, gwirfoddolwyr, tiwtoriaid, cyfranogwyr, cynulleidfaoedd, partneriaid ac arianwyr am wneud y cyfan yn bosibl.





Y stori mewn rhifau



12

Aelod
Bwrdd

2

Staff Llawn
Amser

4

Staff Rhan
Amser

46

Tiwtor
Llawrydd

9215

o sesiynau
gwersi un i un
i ddisgyblion o
5 i 80+ oed

746

o sesiynau
grwp
cyfranogol


8051 o
fynychiadau
gweithdy

Cyfrwng laith y gwersi 1-1



■ Cymraeg (75%) ■ Saesneg (25%)

Oedran disgyblion 1-1



■ Dan 25 oed (87%) ■ Dros 25 oed (13%)

Gwersi un i un a gweithdai grwp

Gwersi un i un

Braf oedd gweld cynnydd bychan yn lefel y gwersi un i un yn ein canolfannau yng Nghaernarfon a Sir Ddinbych yn ystod y flwyddyn.

Gweithgareddau Grwp wythnosol / bob pythefnos hir dymor

- Dosbarthiadau theori cerddoriaeth yng Nghaernarfon a Rhuthun
- Camau Cerdd i blant 6mis-3oed a 4-7oed yng Nghaernarfon, Dinbych a Rhyl
- Triawdau a 4awdau siambr Ieuenctid yn Nghaernarfon
- Doniau Cudd – sesiynau creadigol i oedolion ag anableddau dysgu yng Nghaernarfon
- Côr Hamdden Mathias – grwp canu yn ystod y dydd i ferched hŷn yng Nghaernarfon
- Cerddorfa Gymunedol Caernarfon – i oedolion o bob oed a chyrhaeddiad cerddorol
- Sgwrs a Chân – sesiynau canu cymunedol mewn partneriaeth ag Uned Celfyddydau Cymunedol Cyngor Gwynedd yn Nhrawsfynydd, Bala, Pwllheli, Gellilydan, Bethesda, Deiniolen, Tremadog.
- Atgofion ar Gân yn Llyfrgell Rhuddlan mewn partneriaeth gyda Grwp Cefnogi Dementia Rhuddlan a Gwasanaethau Celfyddydau Sir Ddinbych.
- Canfod y Gân – Sesiynau o dan nawdd Spirit of 2012 sy'n dod a phobl efo anableddau dysgu a phobl heb anabledd ynghyd i gymryd rhan yn gyfartal mewn cerddoriaeth gyda'r nod o wella iechyd meddwl a lles. Sesiynau yng Nghaernarfon, Harlech a Pwllheli.
- Sesiynau Cerdd mewn cartrefi gofal yn Sir Ddinbych mewn partneriaeth gyda Celfyddydau Sir Ddinbych ac o dan nawdd Comic Relief

Gweithdai achlysurol

- Gweithdai Cyfansoddi i fyfyrwyr Lefel A
- Gweithdy ar gerddoriaeth Indiaidd gyda Anup Kumar Biswas
- Gweithdai Techneg Llais gyda Marian Bryfdir a Kiefer Jones
- Sesiynau pop-yp Camau Cerdd
- Diwrnod Piano ym Mhrifysgol Bangor

Cyngherddau a Phartneriaethau

Cyngherddau a pherfformiadau wedi eu trefnu gan CGWM

- Cyngerdd Dathlu Penblwydd CGWM yn 20oed
- Llwyfannau Cerdd unwaith y tymor yng Nghaernarfon a Sir Ddinbych
- Cyngerdd Haf a Nadolig Cerddorfa Gymunedol Caernarfon
- Cyngerdd Haf gan unigolion ac ensembles CGWM
- Cyngerdd tiwtoriaid piano i Lansio Gwyl Bianco Ryngwladol Cymru
- Cyngherddau gan diwtoriaid ac alumni CGWM mewn lleoliadau cymunedol a chartrefi gofal
- Perfformiadau cymunedol fel rhan o Canfod y Gân
- Cyngerdd gan Diwtoriaid Piano CGWM i Lansio Gwyl Bianco Ryngwladol Cymru

Gweithio mewn Partneriaeth

- Cafwyd sawl cyfle i gydweithio gyda sefydliadau a digwyddiadau eraill yn ystod y flwyddyn
- Eisteddfod Genedlaethol Cymru - 3 pherfformiad ar y maes yn Llanrwst.
- Gwyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru – perfformiadau yn lansiad a chyngherddau yr Wyl; sesiynau Camau Cerdd a gweithio mewn partneriaeth gyda New Sinfonia a Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych ar y prosiect addysgol a gyda Ensemble Cymru a WNO ar y Bore Cerddoriaeth Siambr.
- Gwyl Gerdd Biwmares – darparu cyngerdd gan gerddorion ifanc CGWM a sesiynau Camau Cerdd.
- Gwyl Gerdd Bangor – sesiynau Camau Cerdd a pherfformiad gan Canfod y Gân.
- Celfyddydau Cymunedol Sir Ddinbych – prosiectau Camau Cerdd a sesiynau mewn cartrefi gofal.
- Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn – gweithdai ar gerddoriaeth Indiaidd a hyfforddiant i Ymddiriedolwyr
- Menter Iaith Sir Ddinbych – sesiynau Camau Cerdd fel rhan o'i Diwrnodau Teulu.
- Uned Celfyddydau Cyngor Gwynedd – Prosiect Sgwrs a Chân

Gwirfoddoli a Gwytnwch

Gwirfoddoli

O ganlyniad i sefydlu Canfod y Gân rydym wedi datblygu polisi a Llawlyfr i Wirfoddolwyr a sefydlu cytundeb o ddealltwriaeth gyda Uned Prifysgol Bangor. Ein nod y flwyddyn nesaf yw datblygu y cyfleoedd i wirfoddolwyr o bob oed a chefnidir i fod yn rhan o deulu CGWM.

Gwytnwch

Cafwyd cyfle yn ystod y flwyddyn i gydweithio gyda dau ymgynghorydd yn dilyn cais i Gronfa Wytnwch Cyngor Celfyddydau Cymru.

Gyda chymorth yr ymgynghorydd HR Kay Walters, adolygwyd a diweddarwyd nifer o bolisiau CGWM a chytundebau staff cyflogedig. Mae nifer o'r polisiau yn ymddangos ar ein gwefan.

Cafodd aelodau staff a bwrdd CGWM gyfle i gydweithio efo'r ymgynghorydd datblygu busnes Amanda Smethurst i ystyried Cynllun Busnes CGWM a'n blaenoriaethau a'n gweledigaeth i'r dyfodol. O ganlyniad rydym wedi diweddarau ein Cynllun Busnes gan fireinio ein Nodau ac Amcanion :

- A) Bydd CGWM yn darparu canolfannau o ragoriaeth i feithrin a datblygu talentau cerddorol aelodau o'r gymuned gan gynnwys ein myfyrwyr, mewn perfformio, addysg a chyfansoddi ar gyfer pob oedran a gallu, i'w galluogi i gyrraedd eu potensial cerddorol.
- B) Bydd CGWM yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu cyfleoedd cyffrous, cynhwysol ac arloesol sy'n cyfoethogi'r gymuned gyfan ac yn cefnogi iechyd a lles trwy ymgysylltu â cherddoriaeth.
- C) Mae CGWM yn lysgenad Cenedlaethol a Rhyngwladol ar gyfer cerddoriaeth yng Nghymru a bydd yn hyrwyddo rôl a phwysigrwydd cerddoriaeth yn y rhanbarth, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- D) Parhau i weithio ar ddatblygu sail ariannol gadarn a dyfodol cynaliadwy i'r cwmni.

Diolch i'n arianwyr a'n noddwyr

Rydym yn hynod ddiolchgar i'r canlynol am barhau i gefnogi ein gwaith

unwaith eto eleni :

Cyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor Gwynedd

Chapman Trust

Cyfeillion CGWM am eu cefnogaeth i'n costau craidd ac am gynnig cymorth

ariannol i rai o'n myfyrwyr gyda chostau gwersi.

Diolch i'r canlynol am eu cefnogaeth i brosiectau penodol:

Spirit of 2012, Pendine Park, Rheilffordd Ffestiniog, Arts and Business

Cymru, Cyngor Tref Caernarfon, Ymddiriedolaeth William Park Jones,

Celfyddydau Sir Ddinbych, Menter Iaith Sir Ddinbych, Cyngor Tref

Caernarfon, Camac Harps - Telynau Vining Cymru, Salvi Harps Uk,

Telynau Morley, Niebisch & Tree Harps.

Diolch hefyd i bob unigolion sydd wedi rhoi rhoddion tuag at ein gwaith.



CANOLFAN GERDD
William Mathias